**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Tachwedd 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 7 Rhagfyr 2022 |

## PWNC

Eitem 6:PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMORPREMIWM TRETH CYNGOR

## PENDERFYNIAD

Argymell i'r Cyngor llawn ar 1 Rhagfyr 2022 mai'r canlynol yw'r opsiwn a ffafrir o safbwynt lefel y Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24:

- Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).
- Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. cynyddu o 100% i 150%).
- Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol â gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniad blynyddol os yw am barhau i godi Premiwm ar Dreth Cyngor eiddo gwag hir-dymor ac ail gartrefi ("anheddau wedi eu meddiannu'n gyfnodol). Heb benderfyniad, byddai'n rhaid cynnig disgownt o 50% ar Dreth Cyngor eiddo o'r fath. Mae newidiadau deddfwriaethol yn golygu gall y Cyngor godi Premiwm o hyd at 300% o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

Er mai'r Cyngor llawn sydd rhaid gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â disgownt neu bremiwm Treth Cyngor, a lefel y disgownt neu bremiwm, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor mae angen i'r Cabinet wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Cynhaliwyd Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y mater 30 o Fedi a oedd yn agored am 28 diwrnod. Roedd y canlyniadau i'w gweld yn yr adroddiad.

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Tachwedd 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 7 Rhagfyr 2022 |

---

**PWNC**

Eitem 7:MABWYSIADU CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY

---

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadu y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

Dirprwyo'r  hawl i Bennaeth Adran Amgylchedd i wneud addasiadau ansylweddol i'r ddogfen cyn ei chyhoeddi.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi ac adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT). Pwrpas y CGHT yw gosod fframwaith ar gyfer blaenoriaethu, rheoli a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Tachwedd 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 7 Rhagfyr 2022 |

## PWNC

Eitem 8:GWEDD 4 RHAGLEN FUDDSODDI MEWN PANELI SOLAR

## PENDERFYNIAD

Bwrw 'mlaen i fuddsoddi £2.8m yn y pedwerydd wedd o'r cynllun paneli PV cynhyrchu trydan gan arwain at arbediad refeniw blynyddol.

Ariannu'r buddsoddiad cyfalaf o gronfeydd y Cyngor gan arwain at arbedion refeniw parhaol yn syth fel cyfraniad i'n cynllun arbedion / toriadau.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Wedi i'r Cyngor ddatgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targed o Sero-Net erbyn 2030, penodwyd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) i asesu'r cyfleoedd pellach yn y maes adeiladau.

Cynhaliwyd adolygiad pen desg o'r arferion rheoli ynni presennol ynghyd â dadansoddiad meintiol o effeithlonrwydd yr adeiladau hynny a ddefnyddir gan Gyngor Gwynedd. Nodwyd cyfleoedd arbed ynni penodol. Un o'r prif brosiectau sydd wedi ei adnabod yw ehangu PV ymhellach sef ychwanegu i'r Paneli Solar cynhyrchu trydan sydd eisoes wedi eu gosod.

Mae angen penderfyniad Cabinet er cymeradwyo y buddsoddiad yn y prosiect

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Tachwedd 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 7 Rhagfyr 2022 |

**PWNC**

Eitem 9:DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2021 - HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD (DRAFFT) 2021/22

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Hunanasesiad Cyngor Gwynedd (Drafft) 2021/22 gan dderbyn argymhellion a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae gan y Cyngor ddyletswydd i adrodd ar berfformiad, yn seiliedig ar ddull hunanasesu. Dyma Hunanasesiad Perfformiad cyntaf y Cyngor gan edrych yn ôl ar 2021/22.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Tachwedd 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 7 Rhagfyr 2022 |

---

## PWNC

Eitem 10:CYNLLUN DEISEBAU

---

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y Cynllun Deisebau ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu.

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi'r angen i Awdurdodau Lleol fabwysiadu Cynllun Deisebau. Gofynnir i'r Cabinet ei gymeradwyo a'i argymell i'r Cyngor Llawn.

---

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Tachwedd 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 7 Rhagfyr 2022 |

**PWNC**

Eitem 11:ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU 2021/22

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad a nodi  y gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2021/2022 yn y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen yn rhanbarthol trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Pwrpas Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yw darparu gwybodaeth i bartneriaid mewn perthynas â'i weithgareddau yn ystod 2021/22. Mae'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed o fewn ffrydiau gwaith y Bwrdd yn ystod y flwyddyn.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Tachwedd 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 7 Rhagfyr 2022 |

---

**PWNC**

Eitem 12:ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Tachwedd 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 7 Rhagfyr 2022 |

## PWNC

Eitem 13:ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.